



BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2022

O 2017 ymlaen, bydd yn ofynnol i unrhyw sefydliad o fewn y DU sy'n cyflogi 250 neu fwy o weithwyr gyhoeddi adroddiad cyhoeddus ar ei Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae'n ofynnol i ni adrodd ar cymedrig a chanolrif y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ynghyd â dadansoddiad, fesul chwarter, o faint y dynion a'r merched sydd ym mhob chwarter, ar sail eu cyfradd tâl fesul awr.

Y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyfradd gyfansymiol fesul awr mewn cyflogau gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, er gwaethaf eu rôl o fewn y Gwasanaeth. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar enillion net unigolyn a dalwyd ym mis Mawrth 2022 ac maent yn cynnwys elfennau megis cyflog, lwfansau, anrhydeddau a thaliadau aberthu cyflog.

Mae'r Gwasanaeth yn hyderus bod dynion a merched yn gydradd o ran tâl am ymgymryd â rolau cyfartalog ar draws y sefydliad, gan y telir staff, er gwaethaf eu rhyw, drwy law gyfraddau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol.

Data Cymedrig a Chanolrif


Gwahaniaeth rhwng dynion a menywod

	Cymedr (Cyfartaledd)	Median (Canolbwynt)
Tâl fesul awr	15.33% (14.59%)	15.56% (14.59%)

Sylwer: Y ffigyrau mewn cromfachau yw ffigyrau 2021 a ddefnyddir at ddibenion cymharu ac mae'r cyfraddau cyflog canolrifol fesul awr, ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, yn uwch na'r cyfraddau cyflog cymedrig (cyfartaledd) y Gwasanaeth.

Dengys y tabl uchod cymedrig (cyfartalog) a chanolrif (chanolbwynt) cyffredinol ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn seiliedig ar gyfraddau cyflog fesul awr fel yr oeddynt ar yr 31ain o Fawrth 2021. Mae hyn yn dangos gostyngiad cadarnhaol yn y bwlch rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd. Drwy weithredu'n gadarnhaol mae'r Gwasanaeth wedi gweld rhywfaint o lwyddiant o ran cynyddu nifer y contractau cyflogaeth a sicrhawyd gan weithwyr benywaidd. Serch hynny bu gostyngiad cyffredinol hefyd o ran nifer y contractau y gellir eu defnyddio ar gyfer yr asesiad GPG, sef y sawl sy'n derbyn tâl am fis cyfan ar Fawrth 2022.

Chwartelau Cyflog (yn seiliedig ar gyfraddau wrth yr awr)



Mae'r wybodaeth uchod yn disgrifio'r dosbarthiad yn ôl rhyw o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, fel y mae ar yr 31ain o Fawrth 2021, yn unol â gofynion Adrodd am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.



BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2022

Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn seiliedig ar gyfartaledd cyflog benywod a gwrywod, ac efallai un o'r achosion mwyaf drosto yw bod cynifer o fenywod a dynion mewn gwahanol rolau a gwahanol lefelau o fewn y sefydliad.

Os bydd mwyafrif y gweithwyr ar y lefelau cyflog uwch yn wrywaidd a mwyafrif y gweithwyr ar y lefelau cyflog isaf yn fenywaidd, mae'n debygol bydd bwlch cyflog rhwng y rhywiau, er y telir pawb â'r cyflog cywir ar gyfer y rolau maent yn ymgymryd â hwy.

Mae rhesymau eraill a all gyfrannu at fwllch yn cynnwys:

- Telerau ac amodau a chyfraddau cyflog gwahaniaethol i grwpiau o staff ar draws y Gwasanaeth
- Cyfradd uchel o fenywod yn aml mewn rolau rhan-amser â chyflogau isel
- Tâl neu ddewisiadau dyrchafu a wnaed ar adegau amrywiol ym mywyd gwaith yr unigolyn
- Buddion gweithwyr megis cynlluniau aberthu cyflog, h.y. Tocynnau Gofal Plant, Cynllun Ceir Prydles Bersonol neu daliadau Beicio i'r Gwaith

Gan fod cynifer o ffactorau cyfrannol i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, does dim un datrysiaid syml sy'n datrys popeth.

Fel rhan o'n Strategaeth Recriwtio ac Atynnu, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n annog ceisiadau gan ferched o bob cefndir yn weithredol, ar draws pob rôl, ac mae hefyd yn gweithio'n weithredol â grwpiau ffocws i ddeall yn well sut ydym yn chwalu unrhyw rwystrau ymddangosiadol fydd yn atal merched rhag ymgymryd â rolau gwisg o fewn y Gwasanaeth.

Cau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Rydym yn ymrwymedig i barhau i leihau'r bwlch cyffredinol a dangosir hyn drwy'r mentrau canlynol.

Ein prosesau - recriwtio, cadw a datblygu gweithlu amrywiol:

- Paneli rhyw gymysg ar gyfer dethol a chyfweld
- Dethol dall lle mae'r holl nodweddion adnabyddadwy yn cael eu tynnu
- Newid canfyddiad rolau yn y Gwasanaeth drwy ein hymgyrchoedd yn y cyfryngau
- Datblygu llwybrau dysgu newydd ar gyfer yr holl staff
- Hyfforddiant Rhagfarn Anymwybodol
- Creu gweithle mwy cynhwysol
- Dewisiadau gweithio hyblyg

Y Cyngorydd Steven Bradwick
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru